## Mair o Magdala

**Luc 8:2; Marc 15:47; 16:1–8,9; Ioan 20:1–18**

Wrth ddarllen adroddiad yr Atgyfodiad o Efengyl Ioan, cawn weld pwysigrwydd Mair o Fagdala yng ngweinidogaeth Iesu. Ar y dechrau, credai mai garddwr oedd Iesu Atgyfodedig, gan lefaru yn ei dagrau:

‘Os mai ti, syr, a’i cymerodd ef, dywed wrthyf lle y rhoddaist ef i orwedd, ac fe’i cymeraf fi ef i’m gofal.’ Ac meddai Iesu wrthi, ‘Mair’.

Adnabu ei lais. Cyfarchodd ef yn yr iaith Hebraeg, ‘Rabbwni’. Ef oedd ei Hathro. A chafodd orchymyn i fynd yn ddiymdroi i gyhoeddi’r newyddion da. Meddai Nantlais, yr emynydd:

‘Cyhoedder y gair, atseinier y sôn,
A thrawer y salm soniarus ei thôn,
Dywedwch wrth Seion alarus a gwyw
Am sychu ei dagrau, mae’r Iesu yn fyw!’

Bûm lawer tro ym Magdala yng Ngalilea, ar ochr orllewinol y llyn, ond bellach nid oes dim byd ond olion o’r pentref lle y ganwyd Mair, un o ganlynwyr ffyddlon Iesu. Yn wir, bu yn un o gynorthwywyr Iesu yng Ngalilea, ac yn anffodus cafodd ei chyflwyno fel merch anwadal ac ansicr, gwan o gymeriad. Traddodiad diflas yw’r traddodiad hwnnw. Gwelwn yn hanes yr Atgyfodiad ei bod yn wraig sensitif ac yn barod i ddilyn trwy bob anhawster. Meddyliai Ioan, awdur yr Efengyl, yn fawr ohoni. Er bod gwragedd eraill wedi mynd i’r Ardd fore’r trydydd dydd, hi yn unig a gaiff sylw Ioan. Yr oedd hi yno i eneinio corff Iesu. Ond methodd â gweld corff drylliedig yr Un a glywodd hi ar fryn Calfaria’n cyhoeddi wrth y canrifoedd, ‘Gorffennwyd’. Ond trwy drugaredd fe adnabu, ar ôl cryn drafferth, Iesu’r Ceidwad. Gallai hi ddweud gyda Gwilym Hiraethog:

‘Am iddo oddef marwol glwy’
A’n prynu drwy ei waed,
Caiff holl goronau’r nefoedd mwy
Eu bwrw wrth ei draed.

Boed peraroglau’i enw drud
Yn llenwi daear lawr,
A chladder enwau’r byd i gyd
Yn enw Iesu mawr.’

***D. Ben Rees***